


Iesu'n bwydo'r 5000



Wedi i'r Iesu bregethu am amser hir i'r bobl, roedd eisiau mynd i le pell i fod ar ei ben ei hun. Ond dilynodd y bobl ef. Roedd yr Iesu'n trugarhau wrthyn nhw. Gan wybod bod eisiau bwyd arnyn nhw, gwnaeth yr Iesu wyrth. Fe wnaeth fwydo pum mil o bobl â phum torth a dau bysgodyn yn unig. Fe wnaeth pawb fwyta gymaint ag oedden nhw eisiau.



"Rhowch y pethau dych chi'n poeni amdanyn nhw iddo fe, achos mae e'n gofalu amdanoch chi." 1 Pedr 5:7

Oes 'na wahaniaeth
os ydym ni'n poeni?

Pwy sydd biau'r bara?
Beth am y pysgod?



Cysylltwch y dotiau a bydd
y delweddau'n gyflawn. Yna
byddwch yn gallu eu lliwio!



Gwers 13

Iesu'n bwydo'r 5000

Testun y Beibl: Mathew 14:13-21.

Adnod allweddol: 1 Pedr 5:7.

Pwrpas: Bydd y plentyn yn deall bod gan yr Iesu ofal dros yr hyn sy'n digwydd iddyn nhw. Nodwch os gwelwch yn dda!

Cynlluniwch weithgareddau addas ar gyfer eich grŵp o blant. Gall y gweithgareddau canlynol gael eu haddasu'n dibynnu ar faint, oed a gallu'r grŵp, ynghyd â'r amser sydd ar gael ac yn y blaen.

Gwers

Wedi i'r plant orffen y dudalen liwio, darllenwch Mathew 14: 13-21 yn uchel, gan ddehongli pob swyddogaeth drwy oslef.

Gwersi:

- Rhoddodd Iesu ei amser am fod ganddo dosturi tuag at y bobl oedd eisiau bwyd.
- Dylem ni ofalu am anghenion pobl eraill.
- Nid yw'r Iesu'n poeni pan wêl mai pum torth a dau bysgodyn yn unig sydd ganddynt.
- Ni ddylem ni boeni am unrhyw beth os ydym yn blant i Dduw.
- Mae'r Iesu'n gofyn i'w Dad Nefol i'w helpu mewn gweddi.
- Dylem ni ofyn i'n Tad Nefol am help yn ein gweddiâu hefyd.
- Gwnaeth yr Iesu'r wyrth hon drwy ddefnyddio'i allu dwyfol.
- Gallwn ni gyflawni pethau dros Dduw wrth i'w allu weithio ynom ni.
- Gwelodd bobl wyrth yr Iesu a chredu yn Nuw.
- Bydd pobl yn gweld ein ffordd o fyw ac yn credu yn Nuw.

II. Gweithgareddau

1. Adnod allweddol

a. Darllenwch yr adnod yn uchel.

"Rhowch y pethau dych chi'n poeni amdany'n nhw iddo fe, achos mae e'n gofalu amdanoch chi."

1 Pedr 5:7

b. Eglurwch yr adnod gan ddefnyddio rhai cwestiynau:

- Sut allwn ni roi'n pryderon i Dduw?
- Sut mae Duw'n gofalu am ein hanghenion?

c. Helpwch y plant i ddysgu'r adnod.

2. Adolygwch gwestiynau ar gyfer y plant

- Pam oedd yr Iesu eisiau mynd ar ei ben ei hun i rywle unig?
- Pam nad oedd y bobl eisiau iddo fynd?
- Sut wnaeth y disgyblion ymateb?
- Beth oedd ateb yr Iesu i'r disgyblion?
- Faint o dorthau a faint o bysgod oedd gan yr Iesu i fwydo'r bobl?
- Sut lwyddodd yr Iesu i "luosi'r" torthau bara?
- Faint o bobl gafodd eu bwydo?

III. Diweddglo

Nid oedd gan yr Iesu lawer o fwyd wrth law. Ond cyflawnodd y wyrth hon am fod rhywun wedi cynnig ei fara a'r pysgod. Yn y ffordd hon, cafodd fwy na phum mil o bobl fwyta faint bynnag oeddent eisiau. Gall yr Iesu wneud gwyrthiau drwy eich defnyddio chi hefyd. Os rhowch eich hunan yn nwylo Duw, gall yr Iesu gyflawni pethau mawr drwoch chi hefyd.